# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Mai 25ain 2022 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Richards, Jean Roberts a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Euros Puw yn bresennol cytunodd Huw Charles i gadeirio'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-
i) Ffos rhy ddwfn a peryg i geir fynd iddo ger Cynythog Bach, Llidiardau – mi roedd y mater wedi cael ei anfon i sylw'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.
ii) Angen clirio ochrau'r ffyrdd o Ffridd Isa i Lidiardau a rhwng Beudy Uchaf i Bant Neuadd, Parc - byddai'r gweithlu yn ymgymryd â'r gwaith yn y flwyddyn ariannol newydd.
iii) Coeden angen ei chlirio ger Beudy Uchaf, Parc – roedd trefniadau wedi cael ei wneud i'w chlirio.
iv) Tyllau yn y ffyrdd o gwmpas pentref Parc – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i lenwi'r tyllau.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

i) Cylch yr Iaith - gwarchod enwau lleoedd Cymraeg. Cytunwyd i yrru at Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg, yn mynegi siom y Cyngor nad oedd unrhyw fwriad yn rhaglen Llywodraeth Cymru i sicrhau gwarchodaeth statudol i enwau lleoedd tirweddol Cymraeg nac enwau tai Cymraeg.
ii) Newyddion Coedwig Genedlaethol i Gymru. Cytunwyd i yrru atynt i grybwyll gwrthwynebiad y Cyngor i'r bwriad o blannu coed ar dir amaethyddol.
iii) Cyngor Cymuned Llanuwchllyn - Cynllun Ardal Llanuwchllyn. Cydnabuwyd yr holl waith a oedd wedi cael ei wneud i baratoi'r cynllun.
iv) Byd Mary Jones - derbyniwyd e-bost yn egluro na fyddai'r Ganolfan ar agor dros yr haf ac y byddai'r sefyllfa yn cael ei hadolygu ym mis Medi. Gofynnwyd i'r clerc ofyn a byddent yn ystyried cadw'r maes parcio ar agor i drigolion lleol a oedd yn ymweld ar fynwent.
v) Benthyg Cymru - cyngor ar sut i sefydlu cynllun cymunedol i gynnig benthyg offer garddio, tŷ ayyb i'r gymuned.
vi) Traffig Cymru – diweddariad am y gwaith cryfhau arglawdd yr A494 yn Llanycil.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
Rhandal cyntaf y Praesept - £2,250.

b) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.
Mi roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau cyfrifyddu a


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

llywodraethu yn y ffurflen archwiliad blynyddol. Cafwyd braslun gan y clerc o'r amserlen o'r canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.

c) Taliadau
Cytunwyd i dalu Zurich (yswiriant)
Cytunwyd i ychwanegu enw Huw Charles i fantolen y banc er mwyn iddo allu arwyddo sieciau.

ch) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, Kids Cancer Charity a Teenager Cancer Trust Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Dŵr Cymru.
Derbyniwyd cwynion am drefniadau Dŵr Cymru pan fu rhaid cau'r ffordd yn Rhyduchaf yn ddiweddar. Nid oedd posib i unrhyw gerbyd basio ac roedd pryder am yr oedi os byddai cerbydau argyfwng yn gorfod defnyddio'r ffordd gwyriad heibio Llyn Celyn. Awgrymwyd y gellid gosod plât dur i alluogi i gerbydau argyfwng basio ond nid oedd contractwyr Dŵr Cymru yn defnyddio'r rhain oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld os byddant yn gallu cydweithio a Dŵr Cymru i gael cyfaddawd.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Canghennau coed yn pwyso ar y wifren ffôn gyferbyn a Thŷ Capel Moelgarnedd.
ii) Angen torri coed yn nôl rhwng Tŷ'n Ffridd a Phont Ceunant, Rhyduchaf.
iii) Ffordd yn pantio'n ddrwg rhwng Moelgarnedd a Cefnbodig, Llanycil a gyli dal angen sylw ar riw Parc.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, Gorffennaf 13fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….